CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 16eg EBRILL 2024.
NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng D T Roberts (Cadeirydd) Cyng W R Parry (Is-Gadeirydd) Cyng J Evans, G Jones, J E Lewis, Miss B Owen, Mrs L Roberts.
Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng Ms N Dafydd, R G Parry, R R Roberts (Gwaeledd)

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 19eg Mawrth 2024 YN RHAI CYWIR: Cyng G Jones eilo Cyng Mrs L Roberts.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2024/69. Cais llawn ar gyfer codi Sied Storfa yn:-
   Lleifior, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng J Evans, eilio Cyng G Jones.

PENDERFYNIADAU.

2. FPL/2023/245. Cais llawn ar gyfer newid defnydd tir Amaethyddol ar gyfer lleoli 6 "clamping pod" adeiladu ardal parcio, creu llwybrau athraidd, tirlunio meddal a gwaith cydylltiedig ar dir yn:-
   Ger y Llan, Bodffordd.
   Caniatad. Derbyn y canlyniad.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Gosod angorfeydd newydd ymm Mhorth Amlwch.
   Cefnogaeth i Bysgotwyr Lleol. Perchnogion Cychod Masnachol a`r Gwasanaeth Liverpool Pilot.
   Cafwyd pryderon am gyflwr nifer o`r polion angori yn yr Harbwr allanol (Llochiau Shell) yn dilyn archwiliad cynnal a chadw.
   Cyngor yn derbyn ac yn newyddion da i`r defnyddwyr.

4. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Angen ID ffotograffig a`r drigolion Ynys Mon i bleidleisio ym mis Mai 2024.
   Etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Rhyw fath o ID (Pasbort, Trwydded Yrru cyhoeddwyd gan y DU (AEE neu`r gymanwlad. Pasys Teithio Rhatach megis pas Bws Person Hyn neu gerdyn Oyster 60+
   Y Cyngor yn derbyn. Nid oes rhai hefo`r uchod.

5. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Gweithdy Cynllun Rheoli Cyrchfan 2023 - 2028.
   Ystafell Tunnicliffe Oriel Mon.
   Gwahoddiad Dydd Mercher Ebrill 24ain Ebrill 2024.
   Y Cyngor yn derbyn gan obeithio y bydd diddordeb mawr.

6. Swyddog Polisi - Rhian Wyn Jones.
   Y Cyngor yn falch fod y Cyngor Sir yn sicrhau £250,000 o gyllid tuag at helpu taclo`r costau byw y Cyngor a CAB Ynys Mon, gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

7. Swyddog Polisi - Rhian Wyn Jones.
   Ym mis Mawrth 2024 Pleidiodd Duran Sasmaz (Siop Pysgod a Sglodion Aran, Llangefni yn euog o godi 50c ychwanegol ar gwsmeriaid yn defnyddio cerdyn yn ddiarwybod iddynt (Croes i`r ddeddf 2008) dirwy a chostau o £1,512.00.
   Cytunodd i wneud cyfraniad o £6,000 i Fanc Bwyd yn dilyn erlyniad gan Safonau Masnach. Nid oedd y bosib dod o hyn i bob dioddefwr.
   Cyngor y n derbyn y wybodaeth. Rhaid bod yn wiliadwrys.

GOHEBIAETH (ARALL)

8. Grwp Gwarchod Gwalchmai. Codi Tai, Chwalu Cymuned. Anwen Parry a Maldeyn Owen.
   Stryd y Goron, Gwalchmai FPL/2022/256. Apel Cas - 02896 - R3Q9P5. Codi 33 Ty gan gynwys 12 Fflat 1 Stafell wely ar rent wedi ei rheoli gan Tai Gogledd Cymru.
   Y Cynghorwyr wedi cael copi gany Clerc ymlaen llaw cyn noson y cyfarfod.
   Ar ol trafodaeth pasiwyd yn unfrydol i`w adael ar y bwrdd. Nid oedd y mater ddim byd i wneud a Cyngor Bodffordd er bod Gwalchmai yn gyfagos. Nid oedd unrhyw ohebiaeth wedi dod gan Gyngor Cymuned Trewalchmai.

9. GwasanaethTan ac Achub Gogledd Cymru. Cadeirydd Cyng Dylan Rees.
   Lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar barhau i atal ac ymateb i argyfyngau cynllun rheoli risg Gymunedol 2024 - 29. Eisau gwybod ein barn.
   Y Cyngor yn erbyn cau. Cynnig Cyng G Jones eilio Cyng Mrs L Roberts. Pawb yn unfrydol.

10. Non Dafydd - Staff Cymorth yr Aelod Senedd Cymru.
    Effaith newid cyfyngiadau cyflymder 20mya yn ein ardal.
    Pa newidiadau - os o gwbwl - yr hoffem gael ei hystyried o fewn ein Cymuned.
    Hystyried ar gyfer troi yn ol 30mya.
    https://www.surveymonkey.com/r/LV8V9W ebost neu gopi caled at a drwy`r post.

    Cafwyd trafodaeth am symud y 20mya (O`r A5 Mona i Pentref Bodffordd.) Mae yn awr ochr bella i`r Eglwys a Mynwent Gymunedol Bodffordd.
    Trwy gynnig gan Cyng J E Lewis yw symud tuag at Maes y Meillion, Bodffordd gyda Cyng Miss B Owen yn eilio.
    Trwy gynnig gan Cyng G Jones yw symud tuag at Ty Newydd, Bodffordd (Dros ffordd i Capel Gad) gyda Cyng Mrs L Roberts yn eilio.
    Trwy bleidlais cariwyd y dydd gyda pedair pleidlais i ddwy i ofyn i`w symud at Ty Newydd. (Cyng J Evans, G Jones, W R Parry, Mrs L Roberts) (Cyng J E Lewis, Miss B Owen.)
    Y Clerc yn awr i gysylltu a`r Awdurdodau i weld y canlyniad.

11. Cae Chwarae, Bodffordd. Gaynor Jones.
Pwyllgor y Cae Chwarae yn chwilio am Gymorth Ariannol. Ei prosiect diweddaraf o osod ffens dur o amgylch y parc. (£6,500) Mae`r pren wedi pydru mewn gymaint o lefydd. Maen`t wedi bod yn llwyddianus yn derbyn cymorth gan Bodffordd Cyf (£4,000) ac Elusen William Bold (£500) Disgwyl na fydd gwaith Cynal a Chadw ar y ffens wedyn am 15 - 20 mlynedd.
Trwy gynnig Cyng W R Parry ac eilio Cyng Mrs L Roberts pasiwyd i gyfrannu.
Cynnig Cyng Mrs L Roberts i rhoi £500 gyda Cyng G Jones yn eilio. Dim gwrthwynebiad.

RHODDION.

12. Dim.

PLWYFOL.

13. Cafwyd ymholiadau a oedd y canlynol wedi cael hawl i adeiladu.

Cae Bach, Tynlon. Cafwyd caniatad Medi 2023. Yn anffodus nid oedd y Cyngor wedi cael cynllun cynllunio yn y lle cyntaf. Na Phenderfyniad. Y Clerc wedi dweud wrth yr Adran Cynllunio ond ni chafwyd eglurhad. Nid oes unrhyw gofnod.

Felin Newydd, Llandrygarn. Sied Amaethyddol cafwyd caniatad yn 2022.
Eto dim cynlluniau na phenderfyniad wedi dod i`r Cyngor gan yr Adran Cynllunio. Felly nid oedd cofnod.

Castell, Llandrygarn. Gweithgareddau yn cymryd lle. Y Cyngor Sir yn edrych i fewn i`r sefyllfa. Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cael cadarnhad ysgrifenedig gan y perchennog yn nodi bydd defnydd y garafan sefydlog yn ategol i`r eiddo yn unig. (Nid oes angen caniatad cynllunio yn yr achos yma) Mae y perchennog yn gwybod os oes newid i`r sefyllfa yn y dyfodol i ddod yn ol.

14. Mrs Ann Griffiths ymholiad dros ei chwaer Mrs Eleri Williams 37, Bronheulog, Bodffordd sydd mewn cadair olwyn, yn chwilio am Dy Cyngor i`w merch yn Bronheulog i fod yn ei hymyl.
Ar hyn o bryd mae y ferch yn cartrefu yn Glanrafon, Tynlon sydd tua dwy filltir i ffwrdd. Mae gan y ferch blant a chymer felly nid ydyw yn bosib iddi symud at ei mham. Nid ydyw yn bosib i`r Cyngor wneud llawer o ddim. Mae rhaid disgwyl tan fydd ty ar gael ac nid oes sicrwydd y bydd yn llwyddianus efallai fod rhywun arall o`i blaen. Rhaid dyfalbarhau a`r Adran Tai y Cyngor Sir.

15. Llwybrau angen sylw:-
Ty Croes, Tynlon i Llwyn Onn, Tynlon.
Pen y Bryn, Tynlon i Eirianellt Groes Lon (Lon Efail Newydd i Llanerchymedd) mae angen arwyddbost bob pen.
Cae Bach, Tynlon i Bryn Tancwy lon Bodwrog.
Cafwyd trafodaeth a dywedodd rhai o`r Cynghorwyr y buasent yn ei cerdded.

16. Cafwyd adroddiad y Cyng Sirol Ms N Dafydd. (Beth mae wedi ei wneud yw Chymuned) Oherwydd ei bod yn absennol, darllenwyd yr adroddiad gan y Cadeirydd. Y Cyngor yn ddiolchgar dros ben.

17. Mecanwaith cau`r giat bach yn y Fynwent Gymunedol, Bodffordd wedi torri. Cyng J Evans wedi cael amcangyfrif am ei thrwsio sef £60. Cynnig Cyng G Jones eilo Cyng Mrs L Roberts i dderbyn a gwneud y gwaith mor fuan ag sydd bosib. Nid oedd gwrthwynebiad

18. Gobeithi`r cael amcangyfrif am arwyddbostiau i Llynfaes, Glanrafon, Gwyndy a Trefor erbyn y cyfarfod nesaf. (Rhai sydd yn cyfuno i fewn gyda rhai Bodffordd)

19. Lon Bodfeillion o Gwyndy. (Lon Maenordy, Bodychen.) Y Clerc i gysylltu ac Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.

MATERION ARIANNOL.

20. Cyfrif Rhedegol. £21,227.46.

    Mynwent Gymunedol Bodffordd £8,390.00 rhan o`r uchod))

TALIADAU:

21. Clerc £470.00. Les Cae Chwarae £25.00. Cymell (Cynnal a Chadw llwybr Tan Rallt i Capel Seion, Llandrygarn. £275.00. Maes Chwarae Bodffordd £500.00.

    Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng J Evans, eilio Cyng W R Parry.

D Owen (Clerc)